TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# VTCT Gwobr mewn Triniaethau Microneedling Radio-amledd Lefel 5



**Cynnwys y cwrs**

Mae Micro-lafnu Amledd Radio yn weithdrefn gosmetig. Mae'n defnyddio nodwyddau mân a thonnau amledd radio i adnewyddu croen yr wyneb. Math o anaf dan reolaeth yw'r driniaeth. Mae'r difrod yn ysgogi tyfu croen newydd ac iachus, a all fod o fudd wrth ymdrin â phroblemau'r croen megis creithiau acne a chrychau.

Bydd y cwrs yn datblygu eich gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ymarferol wrth gario allan triniaethau adnewyddu'r croen drwy ddefnyddio technegau micro-lafnu amledd radio. Byddwch yn gwella sgiliau drwy gyflwyno ymgynghoriad trylwyr i sefydlu cyfaddasrwydd y cleient ar gyfer triniaeth ochr yn ochr â'r wybodaeth ar sut i ddyfeisio

cynllun triniaeth arbennig sydd yn deilwredig i weddu anghenion a gofynion cleientiaid unigol. Byddwch chi'n datblygu y wybodaeth sydd ei hangen i ddarparu cyngor ôl-driniaeth ac ôl-ofal, gan gynnwys unrhyw driniaethau pellach a fydd eu hangen i sicrhau fod y cleient yn derbyn holl fuddion y driniaeth a chael y canlyniadau gorau posib.

Mae'r cwrs yn cynnwys:

Ystyriaethau diogelwch
Protocolau a chanllawiau triniaeth
Dadansoddi technegau Micro-lafnu
Ymgynghoriad, cynllunio a pharatoi
Cymhwyso technegau Micro-lafnu

Cynhelir asesiad drwy aseiniad, arholiad ymarferol ac astudiaethau achos clinigol a byddwch yn ennill dyfarniad VTCT Lefel 5 mewn Micro-lafnu Amledd Radio.

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn byddwch yn symud ymlaen i gyrsiau Lefel 4 a 5 eraill megis:

Dyfarniad Lefel 4 mewn Plicio Croen
Dyfarniad Lefel 4 mewn Micro-lafnu Aeliau
Dyfarniad Lefel 4 mewn Dermaplanio (Dermaplaning)

**Gofynion Mynediad**

Bydd rhaid i chi feddu ar gymhwyster Amledd Radio Lefel 4 a bod yn 18 mlwydd oed neu'n hyn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Noder, o 2024 ymlaen, ei fod yn ofynnol yn ôl awdurdodau lleol i chi gwblhau hyfforddiant gorfodol er

mwyn ennill cofrestriad i ymarfer. Mae'r cwrs hyfforddi gofynnol mewn Rheoli Heintiau, sydd yn para un diwrnod, ar gael i chi yn Coleg Gwent.

Bydd gofyn i chi wisgo gwisg glinig ac esgidiau addas.

Mae cost y cwrs yn cynnwys ffioedd dysgu a chofrestru. Mae ffioedd dysgu yn ddyledus ar adeg cofrestriad/ymrestriad. Os bydd angen, gellir gwneud hyn trwy ddebyd uniongyrchol dros bum rhandal. Os yw eich cyflogwr yn ariannu eich cwrs, bydd cadarnhad o hyn yn ofynnol er mwyn i'r coleg allu trefnu i'w anfonebu.

Mae'n hanfodol eich bod chi'n gallu darparu 4 - 6 cleient fel astudiaethau achos ar gyfer eich asesiadau.

Manteision Masnachol a Busnes

Gall costau triniaeth Micro-lafnu Amledd Radio amrywio rhwng £250 a £400.